Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

Uwch Ymgynghorydd Iechyd a Ffitrwydd

GRADD 10

37 awr yr wythnos
CYFLOG: o £30,451 – £31,346
Parhaol
(bydd yr holl swyddi'n amodol ar werthusiad swydd)

Mae Gwasanaeth â ac Achub De Cymru am benodi Uwch Ymgynghorydd Iechyd a Ffitrwydd i ymuno a'n Huned Iechyd Galwedigaethol a leolir ym Mhont-y-clun.

Byddwch chi'n arwain a datblygu gwasanaeth ffitrwydd uchel ei safon a phroffesiynnol. Bydd gennych gyfle i weithio'n agos â Meddygon Iechyd Galwadegiaethol, Nyrsys Iechyd Galwadigaethol, Ymgynghorydd Iechyd a Ffitrwydd, tîm gweinyddol a darparwyr gwasanaethau iechyd a ffitrwydd allanol.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus radd Bagloriaeth mewn pwnc sy'n gysylltiedig â chwaraeon / ymarfer corff gan gynnwys astudio ffisioleg a phrofion ymarfer corff.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. I gael mwy o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â Karen Davies, Rheolwr Adnoddau Dynol – Adran Rheoli Presenoldeb ac Iechyd Galwedigaethol kv-davies@decymru-tan.gov.ukneu ffonio 01443 232122

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw'r: 13eg o Mai, 2021 am 12:00 ganol dydd.

Gellir lawr lwytho pecyn cais gan gynnwys y Fanyleb Person a'r Swydd-Ddisgrifiad o Adran Swyddi Cyfredol Gwefan Gwasanaeth Tân & Achub De Cymru: www.decymru-tan.gov.uk

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig drwy law e-bost at: personél@decymru-tan.gov.uk

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae GTADC yn credu mewn gwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.

disability confident COMMITTED